

BEIRNIADAETHAU CYSTADLEUAETH 345
CYFANSODDI CERDDORIAETH B17, 8 a 9
Emyr Wynne Jones

Beirniadaeth Gyffredinol ar y Gystadleuaeth

Pedwar ymgeisydd yn unig a gyflwynodd gân â chyfeiliant ar eiriau Cymraeg - nifer siomedig braidd o ystyried natur y dasg, a'r potensial am gyflwyno cân mewn unrhyw arddull gerddorol o ddewis y disgyblion. Derbyniwyd dau gyfansoddiad safonol dros ben, a dwy gân oedd yn dangos potensial, ond hefyd camgymeriadau sylfaenol o ran y nodiant.

Her oedd beirniadu cystadleuaeth lle cyflwynwyd tair cân mewn nodiant yn unig, ac un ar ffurf glywedol (ffeil MP3). Y gân ar ffurf glywedol oedd yr enillydd gan fod bwriad y cyfansoddwr i'w glywed yn glir, ac roedd y cyfanwaith yn effeithiol dros ben. Mae'n ddigon posibl mae'r prif ddiffyg mewn dwy o'r caneuon a gyflwynwyd oedd y nodiant yn unig, a bod yr hyn oedd ym mhen y cyfansoddwr ifanc yn wych, ond y gallu i'w nodi'n gywir ar bapur yn gyfyngedig. Er mwyn bod yn hollol deg a chystadleuwyr o'r oed hyn dylid, yn fy marn i, gofyn am ffeil glywedol a chopi o eiriau pob cân, gan roi'r opsiwn o gyflwyno nodiant os dymunir. Mae'n rhaid cyfaddef nad y cyfansoddiad gorau efallai a enillodd y gystadleuaeth.

Cyflwynwyd un darn effeithiol a chrefftus dros ben i unawdydd bariton ac offerynnau, ond nid oedd yr un gair ar y sgôr, ac nid oedd copi o'r geiriau ar gael chwaith. Roedd yn amhosibl felly beirniadu'r darn fel cân, gan nad oedd modd asesu gosodiad y geiriau, na'r briodas rhwng y geiriau a'r gerddoriaeth. Rhaid sicrhau copi o'r geiriau i'r beirniad.

Y Wobr Gyntaf - Cystadleuydd 345/4 (Teitl: 'Cyffro'r Antur')

Cân gyfoes i fand roc a gyflwynwyd ar ffurf ffeil MP3 yw hon - yn son am yr antur o deithio ymhell. Dyma gân effeithiol dros ben mewn arddull roc, gydag un llais bachgen yn canu'r alaw. Mae gosodiad y geiriau yn dda, strwythur y darn yn bwrpasol, a'r chyfeiliant i gitâr flaen, gitâr rhythm, gitâr fas a drymiau yn gelfydd. Mae adrannau offerynnol yr agoriad a'r canol yn cyfrannu'n sylweddol at effaith cân drawiadol. Am ryw reswm mae'r recordiad a gyflwynwyd yn gorffen yn sydyn cyn y diwedd glo, ond er hyn ceir digon o dystiolaeth o sgil y cyfansoddwr, a bwriad cân effeithiol dros ben. Un nodyn bach i gloi - byddai'n dda fod wedi derbyn copi papur o'r geiriau gan fod ambell i air yn cael ei golli ar y recordiad. Llongyfarchiadau!

Yr Ail Wobr - Cystadleuydd 345/3 (Teitl: 'Rwyt ti jyst yn chwedl i mi')

Deuawd sy'n adrodd stori dau fachgen sy'n syrthio mewn cariad a'r un ferch, ac yn ymladd drosti yw'r cyfansoddiad hyn. Mae'r ysgrifennu ar gyfer y ddau lais yn gyffredinol dda, gyda'r cyfuniad o'r ddau ambell waith yn canu ar wahân, ac ar adegau eraill gyda'i gilydd yn effeithiol dros ben. Ar adegau mae gosodiad y geiriau yn lletchwith (e.e. y gair 'olwg' ym mar 35 a 36), ac mae nodiant y geiriau 'i mi' yn y coda (bar 61-64) yn amlwg anghywir. Mae'r chyfeiliant piano ar y cyfan yn effeithiol dros ben, ond o bryd yw gilydd ceir ambell i nodyn sy'n swnio'n anghywir, ac ambell i ran (megis barrau 14-16) sydd bron yn amhosibl i'w chwarae gan fod y ddwy law bron ar yr un nodau. Byddai symud y llaw dde i fyny wythawd wedi concro hyn. Efallai mai gwallau nodiant yn unig yw'r rhain, ac nad yw'r nodiant yn adlewyrchu'r hyn oedd ym mhen y cyfansoddwr. Byddai cyflwyno recordiad o'r gân wedi cynnig tystiolaeth wahanol, ond heb hyn rhaid derbyn fersiwn y nodiant yn unig. O ganlyniad mae'r ffaith nad oes unrhyw awgrym o'r tempo, ac mae dim ond un marc deinameg ('mp' ar y dechrau) sydd, hefyd yn wendid. Mae llawer o botensial fan hyn. Gobeithio bydd y cyfansoddwr yn dal ati i fireinio ei grefft / ei chreffft.

Y Drydedd Wobr - Cystadleuydd 345/2 (Teitl: 'Cathod Taf')

Dyma gyfansoddiad ar gyfer y fflwt, telyn, sielo a bariton, a rhaid yw canmol safon gwaith trylwyr y cyfansoddwr. Cyflwynwyd sgôr celfydd sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl i'r perfformwyr - marciau tempo, deinameg, a geiriau i awgrymu'r naws a'r ymdeimlad. Ceir ysgrifennu effeithiol dros ben ar gyfer y cyfuniad o offerynnau, ac mae'r newid cywair ym mar 21 ar gyfer yr adran 'espressivo e cantabile' yn adio at y diddordeb cerddorol. Mae yna nifer o syniadau hyfryd cerddorol fan hyn, ond mae yna un gwendid arwyddocaol a sylweddol. Ble mae'r geiriau ar gyfer y bariton? Cyfansoddi cân â chyfeiliant ar eiriau Cymraeg oedd y canllaw, ond mae'n amhosibl asesu'r cyfansoddiad fel cân heb y geiriau. Mae angen gweld pa mor gywir yw gosodiad y geiriau, a pha mor addas yw'r alaw a'r cyfeiliant i gyfleu eu hystyr. Treuliais amser yn chwilio'r we rhag ofn bod yna eiriau 'Cathod Taf' yn bodoli yno eisoes, mewn ymgais i fod yn deg â'r cyfansoddwr - ond ofer fu hyn. Mae'r darn yn y tri uchaf oherwydd ansawdd y cyfansoddiad, ond mae'n amhosibl rhoi'r wobwr gyntaf i rywbeth nad yw'n osodiad o eiriau Cymraeg!

Ymgeisydd arall - 345/1 (Teitl: 'Pa le mae 'nghariad i?')

Dyma unawd i gyfeiliant piano. Ceir dewis da o eiriau, ac mae natur yr alaw yn cyfleu ystyr, tristwch a galar y geiriau yn effeithiol dros ben. Ar y cyfan, mae'r gân wedi ei chofnodi'n gywir, ond mae yna ambell i wendid arwyddocaol fan hyn. Byddai'n dda cael rhyw syniad o'r tempo ar y cychwyn - marc metronom neu ryw air. Byddai'n dda hefyd cael syniad o ddeinameg y darn - does dim digon o wybodaeth yma i'r perfformiwr. O bryd i'w gilydd mae gosodiad y geiriau yn lletchwith gyda'r acen neu'r pwyslais yn syrthio mewn lle annaturiol. Mae'n ddigon posibl mai nid dyma beth yr oedd y cyfansoddwr yn ei glywed wrth gwrs, ond heb recordiad o'r gân i wrando arno ochr yn ochr â'r sgôr, rhaid derbyn fersiwn y nodiant. Mae'r cyfeiliant deulais syml ar y piano yn effeithiol ac yn adio at ymdeimlad moel y gan, ond o bryd i'w gilydd, mae angen nodyn ychwanegol i greu harmoni mwy llawn. Mae yna botensial yng nghyfansoddwr y gân - dalier ati i gyfansoddi.

Cystadleuaeth 348
Cyfansoddi Cerddoriaeth BI.10 a dan 19 oed
Ieuan Wyn

Llaneurgain - Mr Pwy a Wŷr 348/1

Buaswn yn tybio bod y cyfansoddwr hwn yn aelod o fand prês ac yn hoff o'r sain traddodiadol 'band prês'.

Mae yma ddefnydd cryf o themâu; mae'r brif thema a gyflwynir ar ddechrau y darn yn cael ei ail adrodd yn dda drwy'r darn. Braf yw gweld dy fod hyd yn oed wedi cynnwys y brif thema yn y *trio*. Da iawn i weld llais cyfansoddi ifanc gyda'r math hwn o weledigaeth a gafael ar rhywbeth sydd yn anodd iawn i sawl cyfansoddwr proffesiynol - sef strwythur a ffurf.

Mae'r darn yn un da, ond mae'n eithaf amlwg lle mae ffocws yr ysgrifennu, sef ar y ffurf a'r arddull traddodiadol hwn. Dwi'n teimlo y gellid wedi bod yn fwy mentrus gyda'r ieithwedd harmonig sydd wedi cael ei defnyddio. Ystyria roi ychydig o newidiadau cyweirnod neu amsernod i mewn i'r darnau er mwyn arbrofi gyda sut mae'r swm a'r teimlad yn gallu cael ei newid; o bosib na fyddi eisiau cadw'r newidiadau yma i gyd ond mae'n ffordd dda o wthio dy hun a chreu *lais* unigryw i dy hun. Er dweud hyn, mae'n ddarn sydd yn dangos addewid mawr o ran dawn gyfansoddi.

Hoffwn gwestiynu'r nodyn "**one**" ym mar 16 gan ei fod wedi ei ysgrifennu ar linell *solo cornet*. Byddai hi werth esbonio hyn yn well ar ddechrau'r darn efallai.

Ystyria gynyddu'r gerddorfaeth ei hun i greu *crescendo* yn hytrach na dim ond ei ysgrifennu i mewn o dan yr offerynnau sydd yn chwarae e.e. bar 47-49, gallai y p < f gael ei gyfleu yn well drwy ddod a'r trombones i mewn i atgyfnerthu y crescendo. Ar y pwynt hyn hefyd, cofia nad yw pawb yn gorfod chwarae o hyd er mai ymdeithgan yw hi. Mae tynnu ychydig o offerynnau allan yn gallu creu gwrthgyferbyniad effeithiol iawn pan y byddi yn dod a nhw yn ôl i mewn, ac yn gwneud y darn yn haws i wrando arno.

Er dy fod yn debygol o fod yn aelod o fand pres, teimlaf dy fod wedi anghofio am yr agwedd *ddynol* ar adegau. Hynny yw, mi fydd pobl yn gorfod chwarae dy waith ac felly mae'n bwysig sicrhau nad yw'n gofyn gormod o ran anadlu er enghraifft. Mae gen ti frawddegau hir iawn ar adegau yn enwedig yn y rhannau cyfeiliol. Cofia hefyd mewn band prês fod gen ti lawer o ffyrdd i ychwanegu gwead gwahannol, er enghraifft gyda *mutés*.

Yn y dyfodol, cofia mai yng nghywair C dylid cyflwyno sgôr ar gyfer arweinydd neu gystadleuaeth; mae hyn yn ei gwneud yn haws i'w darllen ac yn arbed gorfod trawsgyweirio wrth ddarllen. Er nad yn ofynnol i'r gystadleuaeth yma, byddai cael CD i wrando arno wedi bod yn gymorth mawr yn enwedig gan ei fod yn waith hawdd i'w gynhyrchu oherwydd natur y meddalwedd sydd yn cael ei ddefnyddio i gyfansoddi.

Dal ati i gyfansoddi, mae potensial mawr yma.

Drygioni Dyn - Godre'r Bryn 348/2

Fel darn o gerddoriaeth, mae'n ddigon dymunol, dangosir tipyn o ddychymyg yma er fod y darn yn defnyddio cyn lleied o offerynnau, dwi'n arbennig yn hoff o'r defnydd o rhyddmau *ostinato* i rhoi teimlad i'r darn.

Mae sawl un o'r brawddegau yn hir; cofia roi ystyriaeth i anghenion y chwaraewyr - mae'n rhwydd anghofio am hyn pan yn cyfansoddi ar dy ben dy hun. Ystyria fynd â dy waith at fand pres a gofyn iddyn nhw am adborth o ran y gallu i chwarae'r darn, gwelliannau ysgrifennu ayyb; mae'r bobl sydd yn chwarae yn aml yn gallu bod yn help mawr i ddatrys problemau pan yn cyfansoddi. Er enghraifft, rhwng bariau 38 a 49, mae'r *bas* yn chwarae yn ddi stop yn ogystal â gorfod ymateb i acenion ar y nodau tra'n chwarae yn *fortissimo*; o bosib byddai'r chwaraewr yn dweud wrthyt bod hyn yn anymarferol, yn enwedig i ensemble fechan fel yr un yn y darn hwn.

Mae'n amlwg wrth ddarllen y gwaith dy fod wedi rhoi ystyriaeth lawn iddo cyn ysgrifennu a dy fod yn mwynhau y broses o gyfansoddi. Dal ati i wneud hyn a gwranddo ar gerddoriaeth gan gyfansoddwyr eraill er mwyn cael dy ysbrydoli ac adeiladu llais dy hun.

Teimlaf ar adegau fod y cyfansoddiad braidd yn 'ddiogel'. Ceisia arbrofi gyda chordiau ac amsernodau; mae'r newidiadau hyn yn gallu bod yn effeithiol iawn mewn band pres.

Darn da sydd yn dangos llawer o addewid wrth y cyfansoddwr, dal ati i gyfansoddi.

Contentezza - Nodau'r Felin 348/6

Dwi'n tybio mai llais ifanc sydd yma, ac mae'n braf iawn gweld ymgais gan rywun ar gychwyn y daith o gyfansoddi. Mae yma ddefnydd da o gordiau diddorol a dilyniannau cordiol pleserus i wrando arnynt. Mae'n amlwg fod y cyfansoddwr yn mwynhau arbrofi. Teimlaf serch hynny byddai o fudd i'r cyfansoddwr arddangos gwell dealltwriaeth o'r offerynnau a ddefnyddiwyd er mwyn sicrhau bod yr alawon yn medru cael ei chwarae. Ceisia roi ystyriaeth i'r alaw gan feddwl am y strwythur cyn dechrau cyfansoddi. Teimlaf y gellid roi mwy o sylw i'r dilyniant harmonig ac i strwythur yr alaw er mwyn gwneud darn fel hyn yn fwy effeithiol. Mae'n siwr dy fod yn falch o'r sain sydd yn cael ei greu gan y cyfrifiadur, ond mae'n rhaid cofio am y chwaraewyr wrth ysgrifennu. Er enghraifft, mae'r cyfeiliant braidd yn ail-adroddus ac ar adegau yn anodd iawn i chwarae fel y gwelir ym mariau 46-50 ac ym mariau 56-57 lle mae llawer o neidiadau.

Dal ati i gyfansoddi a dwi'n siwr y gwnei di ddarganfod dy draed fel petai. Gwrandda ar gerddoriaeth gan gyfansoddwyr eraill, darllen eu sgôrau a cheisia ddefnyddio yr egwyddorion yr wyt yn eu hoffi o'r cyfansoddiadau hyn yn dy waith dy hun.

Dienw - Casi Garlan 348/7

Mae gan y darn sain ddymunol gyda alaw hiraethus a diddorol. Mae'r arddull yn eithaf tebyg i gân bop. Dwi'n hoff o'r defnydd o *Pizz* yn y llinynnau, mi fyddai wedi bod yn dda i weld sgôr i ddeall yn union nifer y chwaraewyr ayyb. ond tybiaf mai pedwarawd llinynnol gyda chyfeiliant piano sydd yma. Er nad yw'n ofynnol yn y gystadleuaeth yma, byddai derbyn sgôr o'r gwaith yn ogystal â CD yn fuddiol, yn enwedig gan fod y gwaith yn amlwg wedi ei gyfansoddi ar feddalwedd modern. Byddai hyn yn caniatáu rhoi gwell syniad am natur yr ensemble e.e. nifer y chwaraewyr, offerynnau ayyb.

Dwi'n hoff o'r defnydd o gwestiwn ac ateb rhwng y gwahanol leisiau yn y rhan gyntaf, ac mae'r cyfeiliant yn gweddu yn dda i'r alawon. Mae'r rhan ganol rhwng 1 munud a 2 funud yn dro eithaf annisgwyl yn y darn gan bod yr arddull yma yn dra gwahanol i'r rhan agoriadol. Dwi ddim yn siwr os ydyw'n gwbl effeithiol yn yr achos yma, ond dal ati i arbrofi gyda synnau gwahanol. Pan yn symud yn ôl i ail ddyfodiad y rhan gyntaf, mae'r trawsnewid yn gweithio yn dda iawn gyda'r alaw yn treiddio drwy'r sain.

Teimlaf fod y gwaith yn un da, ond braidd yn anorffenedig. Mae'r syniadau a gynigir yn rai effeithiol ac yn rai sydd yn aros yn y cof gan gynnwys y motif bach naw cwafer sydd yn ailadrodd drwy'r darn. Anffodus yw'r ffaith fod y darn yn gorffen mor sydyn, ond fe ddaw y gallu i greu diweddglo addas gydag amser. Dal ati i weithio ar dy grefft.

Cân y Mynyddoedd - Sarn Gwydion 348/4

Mae'r darn yn cychwyn yn syml iawn gydag alaw bleserus i'r *Tenor Horn* ac *Euphonium* sydd yn ail-adrodd tipyn drwy'r darn. Hyfryd gweld dyfeisgarwch cordiawl ym mariau 49-54; braf i weld cyfansoddwr yn meddwl tu allan i'r blwch traddodiadol 'cywir' fel petai.

Trueni yw gweld y darn yn dychwelyd i'r union ffordd y cychwynnodd; byddai wedi bod yn braf gweld ychydig mwy o'r ddyfeisgarwch a welwyd yng nghynt wrth ail ymweld â syniadau yn yr adran olaf. Mi allai ymdriniaeth wahanol o'r adran hyn wedi dyrchafu'r holl ddarn. Er dweud hyn i gyd, mae'n dda gen i weld cyfansoddwr ifanc yn deall pwysigrwydd ffurf, mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn i'r darn ac yn caniatáu iddo sefyll ar ei draed ei hun fel petai. Ceisia edrych ar ddarnau gan gyfansoddwyr eraill i weld sut mae nodi pethau ar sgôr ychydig yn well, ystyria sut maent yn nodi arpeugio er enghraifft.

Ymdrech dda iawn.

Gardd Siapan - Cadi Heulwen 348/3

Ensemble ddiddorol iawn. Mae'n amlwg fod y cyfansoddwr wedi rhoi llawer o feddwl i sain y darn; mae'r ensemble yn cyfleu y testun yn dda iawn.

Mae'r cyflwyniad yn addawol iawn, gan rhoi y ddau fodd yn y piano i'w sefydlu fel sail y darn. Mi fyddai wedi bod yn braf gweld yr ensemble gyfan yn gosod y moddau sydd wedi eu

defnyddio yn lle gadael y gwaith i'r piano yn unig. Pe buaset wedi cynnwys y ffliwt a'r vibraphone yn y cyflwyniad, gallai wedi bod tua dwy waith yn hirach, a fyddai wedi adeiladu yr atmosffêr yn well.

Mae'n dda gweld y ddau fodd yn cael eu ailadrodd drwy'r darn, a gweld eu bod yn cael eu trawsgyweirio a'u newid yn gelfydd iawn. Teimlaf dy fod wedi creu awyrgylch siapaneaidd da iawn. Rwyf wedi canolbwyntio llawer yn y darn hwn ar wrthbwynt sydd yn rhywbeth anodd i'w feistrolï; mae'n creu dyfnder a gwead da iawn i'r darn. Y trueni mawr yn y darn yw nad oes strwythur i'w gael ynddo, mae'n tueddi llifo o un adran i'r llall heb fawr o ddolen gyswllt ar wahân i'r ddau fodd. Mae'r syniadau yn rhai da iawn, ond ceisia ddefnyddio llai ohonyn nhw ac yn hytrach eu datblygu nhw fwy yn y dyfodol.

Roeddwn yn siomedig (am fy mod yn mwynhau y darn) i'w weld yn gorffen mor sydyn. Teimlaf y gallet fod wedi gwneud mwy o ymdrech i blethu adrannau gyda'i gilydd a chreu diweddeb addas yn hytrach nag un sydyn. Buaswn yn argymhell yn gryf i ti ail-ymweld â'r darn i'w werthuso; pethau fel rhoi dynameg i'r vibraphone ayyb. Braf iawn gweld rhywun yn defnyddio iaith harmonig sydd ddim yn draddodiadol i greu awyrgylch cofiadwy. Diolch am dy ymgais.

Dienw - Bendigeidfran 348/5

Darn diddorol iawn i gerddorfa linyddol a gawn yma. Mae'r agoriad yn addawol iawn gyda llawer o gyfathrebu rhwng y lleisiau gwahanol sydd yn creu diddordeb ac awyrgylch. Mae'r sain yn rywbeth na fyddai allan o le mewn ffilm neu raglen deledu. Mae yma ddilyniant diddorol o gordiau.

Dwi'n arbennig yn hoff o'r dilyniant cordiau sydd ddim yn gadael pob cord yn y *root position* effeithiol iawn. Mae yma ymdrech deg ar greu gwead ddiddorol; mae'r cyd-ganu rhwng y lleisiau yn effeithiol iawn. Tybed a ellir bod wedi cynnig yr alaw i fwy o'r offerynnau, efallai fod y Viola yn ran diflas ar adegau oherwydd hyn. Mae'n drueni gweld yr adran newydd ym mar 28 yn dod cyn i'r adran gyntaf gael ei datblygu yn llwyr. E bod yr ysgrifennu yn aeddfed, buaswn wedi hoffi gweld ychydig mwy o ddatblygu syniadau- rhywbeth i wella yn y dyfodol dwi'n siwr. Er dweud fod yr adran yn dod yn rhy gynnar, mae'r ddolen gyswllt a welir ym mariaau 24-27 yn effeithiol iawn yn arwain mewn i'r adran newydd.

Yn yr achos hwn, fel gyda unrhyw ddarn, byddai cael mwy o wybodaeth am gymhelliant y darn wedi bod yn gymorth i weld os yw'r awyrgylch sydd yn cael ei greu yn addas. Buasai rhoi teitl addas i'r darn er enghraifft yn syniad da. Mae llawer o'r cordiau yn yr adran gyntaf yn cael eu atal yn hir a'u adfer mewn ffyrdd anarferol. Mae'n bosib mai dyma oedd bwriad y cyfansoddwr, ond heb wybod hanes y darn mae'n anodd gwybod hyn yn bendant. Braf, serch hynny, yw gweld dyfeisgarwch.

Pan ail-adroddir yr adran gyntaf ym mar 40, byddai wedi bod yn dda gweld ychydig o ddatblygiad yn y syniadau, efallai drwy newid y gerddorfaeth neu amseriad ambell rhan, ond mae'n dda gweld ffurf da ar y darn. Gwaith da iawn, yn dangos addewid cyfansoddwr ifanc. Dal ati i ddatblygu dy iaith harmonig, a datblygu dy syniadau.

Rondo yn A Fwyaf - Blodyn Glas 348/8

Mae'r darn hwn wedi ei ysgrifennu mewn iaith harmonic clasurol iawn ei naws sydd yn ddigon pleserus i wrando iddo. Yn anffodus teimlaf nad oes yma lawer o syniadau gwreiddiol, ac felly yn bersonol, braidd yn *ddiogel* gwelaf i y darn hwn.

Cymer ofal pan yn rhoi marciau megis acenion ar ben nodau mewn sgôr- mae cynildeb yn talu ffordd yn yr agwedd hon. Mae sawl peth y gellir gwneud i rhoi acen neu bwyslais ar adran. Mae'r sain ac awyrgylch yn dda, ond teimlaf fod y darn braidd yn anorffenedig. Buaswn wedi hoffi gweld y fiola yn rhan o'r ensemble er enghraifft, ac efallai defnydd mwy o'r offeryniaeth lawn yn enwedig mewn adran fel 39-46 lle byddai llenwi'r gerddorfaeth wedi newid y teimlad yn llwyr.

350 Cystadleuaeth Cyfansoddi cainc dan 25 **Elfair Jones**

Daeth tair cainc i law ar gyfer y gystadleuaeth, a'r dair yn cynnwys nodweddion addawol iawn. Cyn rhoi fy marn ar gynnwys y ceinciau, credaf fod angen gosod fy meini prawf, sef fy marn innau o beth sydd yn gwneud cainc lwyddiannus.

- 1) Mae angen i bob cainc gael cymeriad amlwg er mwyn ei pharu yn llwyddiannus gyda cherdd o naws debyg a chyfoethogi'r datganiad.
- 2) Mae angen i bob cainc allu sefyll ar ei phen ei hun fel cyfansoddiad. Golyga hyn fod angen iddi gael alaw gofiadwy yn ogystal â chyfresi harmonig diddorol.
- 3) Mae angen i'r dôn a'r cordiau symud yn naturiol heb ormod o gymhlethdod er mwyn hwyluso gwaith y gosodwr a'r datgeinydd.
- 4) Mae angen cywirdeb cerddorol o ran nodiant a rheolau harmoni.

Mae Lleifior yn llwyddo i ateb bob un o'r gofynion, ac mae ynndi alaw naturiol a chordiau cynnes braf. Mae'r gainc yn un sy'n llifo'n rhwydd a byddai yn sicr modd gosod ar hon heb drafferth. Petai hon yn cael ei chyhoeddi, serch hynny, buaswn i yn newid ambell nodyn yn llinell y bâs fel bod 7fed y cord yn disgyn i'r nodyn islaw ar gyfer y cord nesaf (gweler far 5, 11 a 12). Mae yna hefyd un man bach yn y llinell felodig sydd yn chwithig iawn, sef yr F# yn nodyn olaf bar 15 yn symud i'r F naturiol. Mae'r F naturiol a'r Bb yng nghord olaf bar 16 yn lliwio'r harmoni yn effeithiol iawn, felly buaswn i yn addasu'r nodau yng nghord olaf bar 15.

Mae Bryn Afon gan Celyn yn gosod naws hyfryd yn ei bariau agoriadol. Mae alaw adran 1 yn llifo'n ganadwy, ond collir y naws yn yr ail adran. Mae'r newid cywair ar ddechrau adran 2 yn effeithiol, ond mae'r trawsgyweirio yn ôl i'r cywair gwreiddiol braidd yn sydyn. Byddai hyn yn gosod tipyn o her i'r gosodwr a'r datgeinydd. Er hyn, mae cynnwys yr Eb a'r Db yn effeithiol wrth gloi y gainc.

Mae cyfansoddwr Bethel wedi cynnwys cyfarwyddiadau pedalu ar gyfer y telynor yn y gainc, a braf gweld hyn. Er hynny, ni allaf weld diben defnyddio Ab yn hytrach na G# yn y cordiau yn adran 1. Mae sawl man lle ceir llawer o ddychymyg a diddordeb yn nilyniannau harmoni y gainc hon, ond mae yna le i wella melodi'r gainc, gan nad oes naturioldeb yn ei llif cerddorol, yn enwedig yn adran 2, sydd yn gymhleth iawn o ran neidiadau.

O edrych ar y dair cainc felly, dyfernir y ceinciau fel â ganlyn:

1af: Lleifior

2il: Bryn Afon

3ydd: Bethel

3510Cystadleuaeth gosod dan 25 Elfair Jones

Tri chystadleuydd yn unig a gyflwynodd osodiad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Y gofynion oedd gosod cerddi ar gyfer cystadleuth unawdau cerdd dant Eisteddfod yr Urdd 2018 y plant ieuengaf, nail ai blwyddyn 2 ac iau neu blwyddyn 3 a 4. Tasg hyfryd yn fy marn i, gan fod y ceinciau dan sylw mor bleserus ar gyfer gosod arnyh nhw, a digon o gyfleoedd i liwio geiriau yn y cerddi.

Wrth feirniadu'r gystadleuaeth, rwyf wedi ystyried y meini prawf canlynol:

- 1) Rhaid i'r gerdd gael ei chorfannu yn gywir ac yn naturiol.
- 2) Rhaid dilyn rheolau'r grefft yn gydwobodol.
- 3) Mae angen ystyried oedran y datgeinydd – bydd hyn wrth gwrs yn rhoi cyfyngiadau ar y cwmpawd lleisiol gyda phlant iau, ac yn golygu na ellid bod yn rhy heriol. Bydd angen dewis nodau hawdd ar gyfer taro i fewn gan na fyddai llawer o brofiad gan y cantorion.
- 4) Dylai nodau'r gosodiad lifo yn hollol naturiol heb neidiadau lletchwith a di-angen.
- 5) Dylai nodau'r gosodiad adlewyrchu'r geiriau bob amser gan wneud y gwaith o gyfleu ystyr y gerdd yn hawdd.
- 6) Mae angen i rythmau'r gosodiad ddilyn rhythmau tebyg i'r rhythmau naturiol y byddai rhywun yn eu defnyddio wrth siarad

Dewisodd ddau gystadleuydd osod y gystadleuaeth Unawd blwyddyn 3 a 4, sef Ffwl Ebrill ar y gainc Hawys. Un o'r rhain oedd Awelon, a lwyddodd yn wych i ystyried oedran wrth osod. Mae'n taro i fewn yn ddi-drafferth ac mae'r cwmpawd lleisiol yn gyfyng, gan gyflwyno ambell naid amserol pan fod y geiriau yn gofyn am hynny – “amser i ti **godi**” ym mhennill 1, ac yn y diwedd glo. Hoffais yn fawr iawn y nodyn cromatig yn y pennill olaf wrth i mam wenu. Er cystal y gosodiad, roedd un gwall ynddo, sef fod y gosodiad yn dilyn melodi'r gain car y ddau nodyn olaf. Hefyd, anghytunaf â'r rhythm ar nodau “Nain Bry-gwynt” ar ddiwedd yr ail bennill - afyddai dau grotchet cytbwys yn well na'r rhythm dotiog tybed? Yn gyffredinol, dyma oedd gosodiad arbennig oedd wedi ystyried oed y datgeinydd wrth gyfansoddi. Byddai unrhyw blentyn wrth ei fodd yn dysgu hwn, rwy'n siwr.

Cafwyd gosodiad da iawn gan Bron y Fedw hefyd ar y geiriau Ffwl Ebrill. Dewisodd nodau addas o fewn cwmpawd lleisiol plentyn o'r oedran hwn, gan adlewyrchu'r geiriau mewn sawl man e.e. codi i nodau uchel ar “Mae wedi saith!” wrth I dad godi ei lais. Mae'r nodau taro i fewn yn y ddau bennill cyntaf yn effeithiol a naturiol, ond wrth daro i fewn yn y pennill olaf, mae wedi dewis nodau heriol dros ben ar gyfer yr oedran ifanc. Yn anffodus, mae yna ambell wall lle bydd y gosodiad yn dyblu'r gainc – dechrau pennill 2, “Nid oeddwn i yn deal”, ac hefyd wrth daro i fewn yn y bennill olaf (mae'r gosodiad yn dilyn llinell y bas fan hyn.. Fel arfer, does dim gymaint o ots am hyn, ond gan fod llaw dde y delyn yn llonydd yn ystod y rhan yma, mae'r dyblu yn rhy amlwg). Anghytunaf â'r dewis o rhythmau mewn ambell fan, sef p.2 “Am **fynd at** Nain Bryngwyn” (byddai cwafer dotiog a hanner cwafer yn well yma) a “Daeth Dad o'i **waith, ac** meddai...” (cwafer dotiog a hanner cwafer yma hefyd).

Gosododd Ehedydd 'Tyfu' ar gyfer y plant ifancaf. Llwyddodd Ehedydd i ddewis rhythmau addas ar gyfer y geiriau ar y cyfan, heblaw am ambell hanner cwafer ar ddechrau llinellau, lle byddai cwafer wedi bod yn fwy naturiol (Wrth daro i fewn ym mhennill 1 a 2 a'r un fath yn nodau olaf bar 8 yn y ddau bennill cyntaf. Yn gyffredinol, teimlaf fod diffyg profiad y gosodwr yma yn golygu ei fod yn gor-gymhlethu y linell felodig. Er fy mod yn hoffi nodau cromatig mewn gosodiadau, dylid eu defnyddio at bwrpas ac yn sicr ni ddylid eu gor-ddefnyddio, a dyma'r perygl yma. Mae'r nodyn cromatig ar ddiwedd pennill 2 yn hyfryd, ond buaswn i yn ail-feddwl ac ystyried oes angen y gweddill, sydd nid yn unig yn ddi-bwrpas braidd ac yn heriol iawn i blentyn yn y Cyfnod Sylfaen. Cymerwch ofal rhag dilyn nodau'r gainc gyda'r gosodiad fel sydd ym mar 22-23 pennill 4 (“**Ond pan** fydda i wedi tyfu”).

O edrych ar y tri gosodiad felly, dyfernir nhw fel a ganlyn:

1af: Awelon

2il: Bron y Fedw

3ydd: Ehedydd